Isos Partnership (UK) LLP

Rhaglen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol

Gweithdai datrys problemau cyflym gyda rhanddeiliaid ar gyfer Llywodraeth Cymru

Hydref 2013

Cyd-destun

- Trwy'r rhaglen diwygio anghenion dysgu ychwanegol mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno diwygiadau i'r fframwaith anghenion addysgol arbennig (AAA). Ym mis Mehefin 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol*, dogfen ymgynghori yn nodi ystod eang o fesurau i ddiwygio darpariaeth AAA ac i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Cafodd yr ymgynghoriad dderbyniad da, gydag ymatebwyr yn croesawu'r weledigaeth a'r cyfeiriad cyffredinol, tra'n pwysleisio'r angen am ragor o fanylion ynglŷn â sut y byddai'r diwygiadau yn gweithio'n ymarferol.
- Comisiynwyd Isos Partnership (UK) LLP gan Lywodraeth Cymru i hwyluso cyfres o weithdai datrys problemau cyflym gyda rhanddeiliaid o fewn y sector AAA yng Nghymru. Nod y gweithdai, a gynhaliwyd yn ystod mis Medi a mis Hydref 2013, oedd datblygu syniadau manwl ac ymarferol ar gyfer diwygio'r fframwaith AAA, yn arbennig y ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer. Canolbwyntiwyd ar bedair thema:
- **diffiniad o angen;**
- **gweithio mewn partneriaeth ac atebolrwydd;**
- **asesu a chynllunio; a**
- **datrys pryderon ac osgoi anghydfodau**
- Er mwyn cael cysondeb, ac o gofio bod terminoleg yn un o'r meysydd sy'n cael ei ystyried, trwy gydol yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio'r term anghenion dysgu ychwanegol (ADY) er mwyn cyfeirio at blant a phobl ifanc sydd ag AAA neu anawsterau neu anableddau dysgu o dan y diffiniad presennol, ac a fyddai'n bodloni diffiniad newydd o angen.
- Rydym yn ddiolchgar i bawb a dreuliodd amser yn cyfranogi yn y gweithdai am eu parodrwydd i fod yn agored, eu gonestrwydd a'u canolbwyntio ar wella'r system bresennol. Ym mhob gweithdy roedd awydd cryf gan bawb i fanteisio ar y cyfle a gynigir gan y rhaglen diwygio ADY er mwyn gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gobeithiwn fod y gweithdai hyn yn cynorthwyo i gyflawni'r nod pwysig hwn.

1. **Diffinio angen**: teimlai cydweithwyr bod gan y diffiniad presennol gryfderau pwysig, ond ei fod yn rhy gul, nad oedd yn glir, a dylai ymestyn o enedigaeth hyd 25 oed

Mae'r diffiniad presennol yn cydnabod …	**… ond …**	**Dylai diffiniad newydd …**
• Pwysigrwydd diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY, a rhoi sail statudol pan fo angen • Bod gan wahanol blant wahanol anghenion, a dylid gwahaniaethu darpariaeth yn unol â hynny • Pwysigrwydd adnabod ac ymyrryd yn gynnar, drwy gynnwys plant oedran cyn-ysgol yn ogystal â phlant oed ysgol	• Mae'r canolbwyntio ar 'ysgol' ac 'addysg' yn rhy gul - nid yw'n canolbwyntio ar anghenion ehangach plentyn a'r effaith y gallai'r rhain ei gael ar ei gynnydd a'i ddatblygiad • Mae'r diffiniad yn rhy amwys ac yn agored i'w ddehongli - e.e. pa mor sylweddol yw 'anhawster sylweddol fwy'? • Mae diffiniad ar wahân ar gyfer plant oed ysgol a phobl ifanc 16-25 oed	• Roi ystyriaeth fwy cyfannol i ddatblygiad ac anghenion plentyn • Bod yn ddigon clir i ganiatáu mwy o gysondeb cenedlaethol, tra'n parhau i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i'r anghenion pobl ifanc sy'n newid yn gyson • Bod yn gyson ar draws yr ystod oedran o enedigaeth hyd 25 oed • Canolbwyntio ar angen, nid cael ei yrru gan adnoddau

1. Nododd cydweithwyr bedwar “bloc adeiladu” allweddol y gellid eu defnyddio i greu diffiniad diwygiedig o angen

1. Diffiniad cyson o angen o enedigaeth hyd 25 oed Byddai hyn yn cyfuno’r fframweithiau presennol ar gyfer AAA ac anawsterau neu anableddau dysgu, a chynorthwyo i liniaru rhai o’r risgiau mewn cyfnodau pontio allweddol. Nododd ein cydweithwyr ei bod yn bwysig bod yn glir ynglŷn â sut y byddai’r diffiniad newydd yn berthnasol i blant ifanc iawn ac a fyddai’r diffiniad newydd yn berthnasol i’r holl bobl ifanc 16-25 oed, neu dim ond y rheiny sydd mewn lleoliadau dysgu.	**2. Golwg gyfannol o anghenion plentyn neu berson ifanc** Ni fyddai’r diffiniad yn canolbwyntio ar addysg mewn modd cul, ond yn hytrach ‘dysgu’, ‘datblygu’ a ‘chynnydd’ mewn modd ehangach. Ystyriwyd hyn yn hanfodol er mwyn cydnabod yr effaith y gall anghenion ehangach plentyn ei gael ar ei ddysgu, a sicrhau bod gan asiantaethau a gwasanaethau ddealltwriaeth gyffredin a therminoleg gyffredin ar gyfer disgrifio angen.
Diffiniad o angen	
4. Diffiniad clir o ‘gefnogaeth sylweddol fwy’ mewn perthynas â disgwyliadau cyson lleoliadau prif ffrwd Byddai’r diffiniad yn diffinio ‘cefnogaeth sylweddol fwy’ o ran beth y disgwylir i leoliadau prif ffrwd (meithrinfeydd, ysgolion, colegau) ei ddarparu er mwyn cefnogi dysgwyr. Nododd ein cydweithwyr dair lefel o angen fel ffordd o wahaniaethu’r gefnogaeth y gallai dysgwyr fod ei hangen er mwyn gwneud cynnydd.	**3. Canolbwyntio ar yr hyn y mae plentyn neu berson ifanc ei angen er mwyn gwneud cynnydd, nid ar beth na all ei wneud** Byddai’r diffiniad yn canolbwyntio ar y rheiny sydd angen ‘cefnogaeth sylweddol fwy’ er mwyn gwneud cynnydd. Nodwyd na ddylai’r diffiniad ei gwneud hi’n ofynnol bod yn rhaid gweld dysgwr yn methu cyn y darperir cefnogaeth. Awgrymwyd y gallai’r diffiniad fod yn gymwys i ddysgwyr oedd angen cefnogaeth sylweddol fwy neu oedd yn debygol o fod ei hangen.

1. Roedd cydweithwyr yn dirnad tair lefel o angen yn seiliedig ar ddisgwyliadau clir o leoliadau prif ffrwd a phryd y byddai angen cefnogaeth ychwanegol

Ar bob lefel efallai y bydd, neu na fydd, diwallu anghenion dysgwr yn gofyn am fewnbwn gan ystod o asiantaethau a gwasanaethau	Lefel 1	• Asesir a diwellir anghenion dysgwr o fewn ei leoliad o blith ystod o dechnegau addysgu a chefnogi wedi'u gwahaniaethu • Mae disgwyliadau clir ynglŷn â'r anghenion y mae disgwyl i leoliadau prif ffrwd eu diwallu a'r ddarpariaeth y mae disgwyl iddynt ei chynnig • Ni fyddai'r lefel hon o fewn y diffiniad ffurfiol o 'anghenion dysgu ychwanegol'	Byddai'r dull yn hyblyg er mwyn galluogi dysgwyr gydag anghenion tymor byr i symud rhwng y lefelau
	Lefel 2	• Asesir anghenion dysgwr o fewn ei leoliad • Efallai y llunnir cynllun a'i roi ar waith o fewn y lleoliad yn ymwneud â sut y diwellir anghenion dysgwr • Caiff ei anghenion eu diwallu o fewn ei leoliad, ond gyda chefnogaeth allanol arbenigol ychwanegol	
	Lefel 3	• Asesir anghenion dysgwr drwy broses a chynllun statudol • Diwellir ei anghenion drwy ymateb sy'n ategu'r ddarpariaeth sydd ar gael yn ei leoliad presennol, neu'n rhannol neu'n gyfan mewn lleoliad arbenigol • Dysgwyr a allai fod angen y lefel hon o gefnogaeth: (i) angen cefnogaeth bersonol ychwanegol, (ii) byddant yn arbennig o agored i niwed pe bai'r gwasanaeth yn cael ei dynnu'n ei ôl, a (iii) nid oedd eu lleoliad yn gallu diwallu eu hanghenion ar ei ben ei hun	

1. Nododd y cydweithwyr nifer o ffyrdd pwysig y byddai'r diffiniad arfaethedig hwn yn adeiladu ar y diffiniad presennol o angen

Nodweddion allweddol o'r diffiniad arfaethedig	Cwestiynau allweddol gan gydweithwyr i'w hystyried ymhellach
• **Byddai'r diffiniad a'r tair lefel o angen yn ddigon hyblyg i roi ystyriaeth o gyflyrau tymor byr a hirdymor**, ac i adlewyrchu newidiadau mewn anghenion plant a phobl ifanc dros amser • **Ni fyddai'r diffiniad wedi ei seilio ar "fodel meddygol"**: ni fyddai cyflyrau penodol yn syrthio'n awtomatig o fewn diffiniad ADY • Byddai'r diffiniad yn cael ei seilio ar fod â **disgwyliadau clir a chyson o leoliadau prif ffrwd** • **Mae ffocws y diffiniad ar sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu**, yn hytrach na chael ei yrru gan adnoddau	• **Y diffiniad** - ystyried sut i fframio diffiniad o ADY sydd wedi ei seilio ar y pedwar bloc adeiladu a'r tair lefel angen mewn termau cyfreithiol • **Gwybodaeth** - pa wybodaeth fyddai ei hangen i sicrhau bod teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn deall sut y byddai anghenion dysgwr yn cael eu diwallu ar bob lefel, a sut y dylid darparu'r wybodaeth hon? • **Trothwyon ac asesu** – ystyried yr union drothwyon rhwng bob lefel, a sut mae hyn yn cysylltu ag asesiad statudol • **Terminoleg** - beth yw'r geiriau y gallai pob asiantaeth eu hadnabod a'u defnyddio i gyfeirio at 'gynnydd' a 'datblygiad' plentyn?

2. Gweithio mewn partneriaeth ac atebolrwydd: nododd ein cydweithwyr elfennau allweddol cydweithredu llwyddiannus, ond hefyd nodwyd cyfres o rwystrau cyffredin

Elfennau allweddol llwyddiant	Rhwystrau i gydweithredu effeithiol	Beth yw llwyddiant?
• **"Parodrwydd"** - ethos ac agwedd sefydliadol sy'n cynorthwyo i feithrin ymddiriedaeth a chynnal diwylliant a rennir • **Agenda sy'n canolbwyntio ar y person** – y plentyn sydd wrth galon y broses ac nid yn rhywbeth mympwyol • **Blaenoriaethau clir, wedi'u halinio** - ar lefel strategol a lefel ymarferol; cynllun trosfwaol sy'n llywio asesiadau ar y cyd o angen, arferion a rennir, a mesurau llwyddiant a rennir • **Arweinyddiaeth gadarn** – mae arweinydd neu dîm o arweinwyr clir yn gyrru'r bartneriaeth, a gall gweithwyr proffesiynol fynd atynt er mwyn datrys materion	• **Diffyg rolau a chyfrifoldebau clir**, yn arbennig o ran cyllido • **Disgwyliadau afrealistig** – yn aml nid yw'n glir i deuluoedd sut y caiff gwasanaethau eu comisiynu a sut y gwneir penderfyniadau, a all arwain at alw trwm yn cael ei roi ar wasanaethau ac yna'n cael eu trosglwyddo gan un gwasanaeth i un arall • **Blaenoriaethau strategol partneriaid yn cystadlu** - a hyd yn oed cystadlu o fewn yr un sefydliad • **Diffyg prosesau hwyluso -** weithiau nid yw'r prosesau sylfaenol ac ymarferol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn bodoli, neu mae protocolau yn llesteirio cydweithredu • **Ffocws cul** – deilliannau yn canolbwyntio at gyrhaeddiad academaidd, nid cynnydd a datblygiad ehangach	• **Diwylliant proffesiynol** sy'n annog cydweithredu ar sail cyd-ddealltwriaeth a datblygu arfer ar y cyd • **Prosesau wedi'u halinio** lle bo hynny'n bosibl a phrotocolau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn gwella elfennau ymarferol gweithio mewn partneriaeth • **Prosesau gwneud penderfyniadau tryloyw** er mwyn hyrwyddo gwell dealltwriaeth ac ymgysylltiad gan deuluoedd a phobl ifanc • **Blaenoriaethau a deilliannau clir** a rennir gan bob partner statudol • **Rolau a chyfrifoldebau clir** ynglŷn ag arweinyddiaeth a chyllido • **Ffocws a rennir ar ddiwallu angen**, nid ar gystadlu am adnoddau

2. Awgrymodd cydweithwyr nifer o ffyrdd i annog gweithio mewn partneriaeth, ac o'r rhain nodwyd tri "ysgogydd" allweddol

<table>
<tr><th>Ffyrdd o annog gweithio mewn partneriaeth</th><th>Ysgogwyr allweddol gweithio mewn partneriaeth effeithiol</th><th rowspan="4">• Teimlai ein cydweithwyr mai'r allwedd i weithio mewn partneriaeth yn effeithiol oedd nid dim ond dogfennau yn amlinellu dyletswyddau a phrosesau, na'r bobl a'r gydberthynas gywir: cyfuniad o'r ddau ydoedd.
• Nododd cydweithwyr er mai'r nod yn y pen draw ddylai cael sail tystiolaeth a rennir, cyfres o arferion proffesiynol ac offer a rennir, a chyfres o brosesau gweithredu a rennir, rhaid bod "ysgogydd " neu gyfres o ysgogwyr allweddol a oedd yn annog ac yn cynnal yr arferion hynny a rennir.
• Nodwyd tri "ysgogydd" allweddol posibl: dyletswyddau deddfwriaethol, atebolrwydd ar y cyd, a chyllido ar y cyd.
• Teimlai ein cydweithwyr bod dyletswyddau cyfreithiol ac atebolrwydd o bosibl yn ysgogwyr mwy pwerus ar gyfer gweithio mewn partneriaeth na chyfuno ffrydiau cyllid, er eu bod yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol i ddeall mwy am y gwahanol fodelau cydgrynhoi cyllid a chyllidebau personol a ddefnyddir mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill.</th></tr>
<tr><td rowspan="3">• Un pwynt atebolrwydd
• Dyletswydd gyfreithiol ar wasanaethau
• Arolygiadau amlasiantaeth
• Llywodraethu ar y cyd
• Swydd benodol gyda'r grym i arwain a chydlynu partneriaethau
• Adeiladu gallu ac arbenigedd mewn lleoliadau prif ffrwd
• Mecanweithiau cyllido ar y cyd
• Protocolau rhannu data clir
• Cyfeirlyfr cenedlaethol o arfer da
• Dogfennau strategaeth a chanllawiau proffesiynol cenedlaethol sy'n gyson</td><td>Dyletswyddau deddfwriaethol ar yr holl bartneriaid statudol – e.e. dyletswydd i gydweithredu, dyletswydd i ddarparu, dyletswydd i gyflenwi</td></tr>
<tr><td>Atebolrwydd – e.e. atebolrwydd un "unigolyn a enwir", mesurau deilliannau a rennir</td></tr>
<tr><td>Cyfuno ffrydiau cyllido - e.e. cydgrynhoi cyllidebau, cyllidebau personol</td></tr>
</table>

2. Teimlai cydweithwyr y gallai dyletswydd gyfreithiol a mecanweithiau atebolrwydd ar y cyd newydd ysgogi arferion gweithio mewn partneriaeth effeithiol a chyllido ar y cyd

a. Dyletswydd gyfreithiol	• Gellid rhoi **'dyletswydd gyfreithiol i gyflawni'** ar bob partner statudol • Gellid cysylltu'r ddyletswydd hon i'r diffiniad newydd o ADY, a'r tair lefel o angen a ddatblygwyd gan gydweithwyr yn y gweithdy cyntaf yn y gyfres hon • Byddai'r ddyletswydd i gyflenwi yn sail i gyfres o fecanweithiau atebolrwydd ar y cyd • Roedd, fodd bynnag, beth trafodaeth ynglŷn ag a oedd angen dyletswydd gyfreithiol, yn arbennig a fyddai deddfwriaethu ar gyfer cyfarfodydd amlasiantaeth yn effeithiol – cynigwyd gweithrediad gwell a chliriach o ganllawiau statudol fel dewis amgen i ddyletswydd gyfreithiol
b. Atebolrwydd ar y cyd	• Ystyriwyd bod cael **un pwynt atebolrwydd** yn bwysig – e.e. alinio addysg a gofal cymdeithasol plant – ond mae angen rhagor er mwyn dylanwadu ar bob lefel o'r system • **"Person mwyaf priodol"** – cyfrifoldeb clir am gydlynu'r asesu a'r cynllun • **Archwiliadau amlasiantaeth yn canolbwyntio ar ddeiliannau ar y cyd**: (a) lles, (b) datblygiad iaith a datblygiad corfforol cynnar, (c) mesurau cynnydd addysgol wedi'u cysylltu i lefelau angen, a (d) lleoliadau, er bod angen gwaith pellach er mwyn olrhain effaith yr holl wasanaethau allweddol • **Trefniadau llywodraethu ar y cyd**, gan adeiladu ar strwythurau presennol, e.e. Byrddau Gwasanaeth Lleol, Byrddau Lleol Diogelu Plant, a chonsortia gwella ysgolion rhanbarthol

2. Arferion a rennir a threfniadau cyllido ar y cyd

c. Arferion a rennir	• **Byddai blaenoriaethau a deilliannau ar y cyd yn llywio arferion a rennir**, megis asesiadau a rennir o angen lleol a throthwyon asesu a rennir • Bydd pob gweithiwr proffesiynol yn ateb "**yr un gyfres o gwestiynau**" ac yn ymwybodol o sut y byddai eu cyfraniadau yn cysylltu â'i gilydd, wedi'u hatgyfnerthu gan **reolaeth perfformiad staff wedi'i alinio** • Byddai **dulliau ac offer 'teulu arbenigol' a 'gweithwyr proffesiynol arbenigol'** yn cynyddu cyd-ddealltwriaeth o sut mae gwasanaethau yn gweithio, ac yn adeiladu gallu o fewn lleoliadau prif ffrwd er mwyn diwallu anghenion llai difrifol, ac felly cynorthwyo i dargedu adnoddau arbenigol yn fwy effeithiol
d. Cyllido ar y cyd	• **Byddai arferion a rennir, megis meini prawf a chyfrifoldebau cytunedig ar gyfer cymorth cyllidol a "map" a rennir o ddarpariaeth leol yn elfennau allweddol trefniadau cyllido ar y cyd effeithiol** – byddent hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw i deuluoedd • **Roedd cydweithwyr yn awyddus i archwilio modelau cyllid wedi'i gyd-grynhoi a chyllid personol** a ddefnyddir mewn meysydd eraill o wasanaeth cyhoeddus ar draws y DU • **Gellir treialu dulliau cyllido ar y cyd ar gyfer dysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth** (lefel 3), hefyd mae cyfleoedd i'w harchwilio ar lefel 2, wedi'u cysylltu i'r consortia gwella ysgolion rhanbarthol (e.e. gwell cynllunio rhanbarthol o ddarpariaeth amlder isel)

2. I gloi cynigodd y cydweithwyr nifer o syniadau a chwestiynau i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach

Cwestiynau	**Awgrymiadau**
• A fyddai ‘dyletswydd i gyflenwi’ yn sail effeithiol ar gyfer atebolrwydd ar y cyd, neu a fyddai’n creu beichiau diangen? • Beth fyddai angen i gyfres o fesurau deilliannau ar y cyd ei chynnwys a allai ddal effaith cyfunol cyfraniadau gwasanaethau allweddol ar ddatblygiad person ifanc? • Pa ddata a gesglir ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol na ddefnyddir i olrhain cynnydd a datblygiad plant a phobl ifanc gydag ADY, ond y gellid ei ddefnyddio? • Beth fyddai cydrannau allweddol fframwaith arolygu ADY amlasiantaeth?	• Ymgysylltu prif weithredwyr awdurdodau lleol ar ffyrdd i wella aliniad a chydweithredu rhwng addysg a gwasanaethau gofal cymdeithasol • Dwyn ynghyd uwch arweinwyr ym meysydd iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol i adeiladu ar yr awydd ar gyfer cydweithredu ymhlith gweithwyr proffesiynol llinell flaen • Ystyried sut y gallai arweinyddiaeth leol darpariaeth ADY gael ei hymgorffori i strwythurau llywodraethu gwasanaeth cyhoeddus sy’n bodoli eisoes yng Nghymru, yn cynnwys y consortia gwella ysgolion rhanbarthol • Ystyried sut y gellid dwyn ynghyd enghreifftiau o arfer da a rhannu’r dysgu • Ystyried alinio canllawiau arfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda dysgwyr ag ADY • Gwneud gofynion a chyfyngiadau rhannu gwybodaeth yn glir, yn arbennig mewn perthynas ag iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau addysg ar gyfer dysgwyr ag ADY

3. Asesu a chynllunio: Nododd ein cydweithwyr saith darn o wybodaeth allweddol a ddylai fod mewn cynllun datblygu unigol (CDU)

1. **Gwybodaeth fywgraffiadol sylfaenol** am y plentyn a'i deulu	2. **Anghenion cyfannol y plentyn**, yn cynnwys ei gryfderau a'i farn	3. **Pwy sy'n rhan o'r broses** – a) sicrhau bod y plentyn a'i deulu wedi'u hymgysylltu, a (b) pwy sy'n gyfrifol am y cynllun, yn cynnwys ar adegau pontio allweddol (e.e. symud rhwng cyfnodau neu rhwng lleoliadau)
4. **"Cynllunio gweithredu"** – (a) pwy sy'n mynd i wneud beth, erbyn pryd, a sut er mwyn cefnogi'r plentyn a diwallu ei anghenion, (b) mesurau llwyddiant CAMPUS, a phwy sy'n atebol am bob un	5. **Cysylltedd** - dylai fod yn glir sut y lluniwyd yr CDU, pa wybodaeth a gasglwyd ac o le, a sut mae hyn yn cysylltu ag unrhyw gynlluniau eraill sydd gan y plentyn	6. **Hygyrchedd** – dylai'r cynllun gael ei lunio mewn modd sy'n hygyrch i'r plentyn a'i deulu, gan eu hymgysylltu lle bo hynny'n bosibl wrth ei gynllunio
	7. **Unrhyw faterion heb eu datrys** na chafodd eu datrys drwy'r broses gynllunio	

3. Teimlai cydweithwyr bod y templed CDU a ddefnyddiwyd ar gyfer y cynllun peilot yn rhoi man cychwyn da, a chynigiwyd syniadau ynglŷn â sut y gellid ei gryfhau

Cryfderau'r templed CDU	• **Mae'r CDU yn *teimlo* fel pe bai'n canolbwyntio ar y person** – y plentyn sydd wrth galon y cynllun • **Mae'n canolbwyntio ar gryfderau** – mae'r CDU yn canolbwyntio nid yn unig ar beth mae'r plentyn ei angen, ond hefyd beth mae'n plentyn yn dda am ei wneud ac ar ei gryfderau • **Wedi'i gyfeirio at weithredu** – mae camau gweithredu, amserlenni a mesurau llwyddiant clir • **Iaith** - mae'n hygyrch, i'r pwynt ac yn addas ar gyfer y plentyn/teulu
Agweddau o'r templed y gellid eu cryfhau	• **Perchnogaeth gliriach** – sicrhau bod y ddogfen yn teimlo fel petai'r plentyn a'i deulu sy'n berchen arni • **Mwy deinamig** – mae'r cynllun yn teimlo'n statig, yn hytrach na'n ddogfen ddeinamig a byw • **Perthnasedd** – a yw'n berthnasol i'r ystod oedran cyfan o enedigaeth hyd 25 oed?
Beth sydd ar goll?	• **Ynglŷn â fi** - gellid cynnwys barn y plentyn amdano'i hun ar y dechrau • **Pwy sy'n gyfrifol a phwy sydd wedi bod yn gysylltiedig** – dylai'r CDU ddweud pwy sydd wedi bod yn rhan mewn datblygu'r cynllun (e.e. drwy ddiagram cylch-perthynas) a phwy sy'n gyfrifol am gynnal y CDU • **Rhesymau pam** – dylid cynnwys adran 'Pam' o dan 'Beth sydd ddim yn gweithio ar gyfer X' • **'Llywiwyd y CDU hwn gan..."** - cysylltiadau i asesiadau a chynlluniau gweithredu eraill

3. Amlygodd cydweithwyr nifer o bwyntiau allweddol i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach

- **Manteision cynllunio gyda'r person yn ganolog iddo a'r CDU** – cydnabu ein cydweithwyr, hyd yn oed os nad oedd hi'n bosibl i ddatblygu un cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY a oedd yn dwyn ynghyd holl asesiadau eu hanghenion a chynlluniau ar gyfer eu cefnogi, bod ffyrdd y gallai datblygiad CDU wella'r broses asesu a chynllunio. Ystyriwyd y CDU fel dogfen a oedd yn:
    - gwreiddio dull person-ganolog;
    - cynorthwyo plant a theuluoedd i fod wedi'u hymgysylltu a theimlo mewn rheolaeth o'r broses; a
    - sicrhau ymglymiad partneriaid allweddol.
- **Man cychwyn da** - teimlai ein cydweithwyr bod y saith maen prawf yn fan cychwyn da ar gyfer y gofynion i asesu angen a fyddai'n cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd.
- **Y camau nesaf allweddol a awgrymwyd** gan gydweithwyr oedd:
    - penderfynu ar y ffordd y byddai asesu a chynllunio yn plethu i ddiffiniad newydd o angen, megis yr un a ddatblygwyd yn y gweithdy cyntaf, a lle byddai gan blant a phobl ifanc CDU (e.e. dysgwyr gydag anghenion ar lefel 3);
    - yn benodol, i ystyried sut i annog, ond nid gorfodi, defnydd elfennau o'r CDU a chynllunio person-ganolog ar gyfer dysgwyr eraill sydd ag anghenion llai difrifol (e.e. dysgwyr gydag anghenion ar lefelau 1 a 2); a
    - datblygu templed ar gyfer y CDU er mwyn cysylltu â'r gofynion deddfwriaethol arfaethedig newydd, Cod Ymarfer diwygiedig ac awgrymiadau rhanddeiliaid.

4. **Datrys pryderon ac osgoi anghydfodau**: nododd cydweithwyr bum ffactor rhyng-gysylltiol a allai beri i bryderon godi a chynyddu

Allan o gyfanswm o 80 o achosion yn ystod blwyddyn tribiwnlys 2011/12 penderfynwyd ar 21% o achosion mewn gwrandawiad, tynnwyd 49% o achosion yn ôl gan rieni, a chafodd 30% eu hildio gan awdurdodau lleol. Beth yw'r rhesymau dros yr ystadegau hyn?

Mynediad at adnoddau - tensiwn canfyddedig rhwng disgwyliadau gan y gwasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael	Gall hyn greu tensiwn rhwng gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau, wrth i ddisgwyliadau afrealistig gael eu pasio ymlaen	Mae diffyg gwybodaeth hygyrch, glir a dibynadwy ynglŷn â'r broses ar gyfer teuluoedd, ac yn aml ceir diffyg cyfathrebu	Mae diffyg gwasanaethau cyfryngu cynnar ar gael	Gall hyn greu diffyg ymddiriedaeth a "diwylliant o ymladd", ac yn y pen draw gall arwain at ymgyfreithiad

4. Nododd cydweithwyr bedwar pwynt yn y broses lle gellid mynd i'r afael â phryderon, rheoli anghydfodau, a dysgu gwersi

1. Cyfryngu gorfodol?	• Mae angen gwell gwybodaeth a chyngor i arwain teuluoedd drwy'r broses asesu a chynllunio • Beth fyddai'r sbardun ar gyfer cyfryngu? A yw hi'n bosibl targedu teuluoedd yn rhagweithiol lle gallai pryderon godi? • Roedd rhai cydweithwyr yn ffafrio cyfryngu *gorfodol* cyn y gellid lansio apêl • Roedd cafeatau ynglŷn ag enghreifftiau lle na fyddai cyfryngu yn briodol - (a) lle bo datrys anghydfod yn hollbwysig o ran amser, neu (b) lle bo pob parti yn cytuno i hepgor cyfryngu
2. Pwy all apelio ac ar ba sail?	• Dylai fod rhagdybiaeth o blaid y plentyn neu'r person ifanc yn gallu apelio, lle'r oedd ganddynt y gallu i wneud hynny (fel y diffinnir gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol) • Byddai teuluoedd a "ffrindiau achos" hefyd yn gallu dwyn apeliadau • Roedd angen eglurhad cyfreithiol ynglŷn ag a allai un gwasanaeth apelio yn erbyn un arall • Dylai'r sail ar gyfer apêl fod wedi ei seilio ar fod anghenion dysgwr ddim yn cael eu diwallu, os nad oedd y CDU yn effeithiol, neu os nad oedd cytundeb ynglŷn â chanlyniad y broses CDU • Bu cydweithwyr yn trafod a ddylai fod sail i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnal CDU, gan nodi bod hyn yn dibynnu ar y trothwy lle byddai'r CDU yn dod yn statudol

4. Nododd ein cydweithwyr bedwar pwynt yn y broses lle gellid mynd i'r afael â phryderon, rheoli anghydfodau, a dysgu gwersi

3. Pwy sy'n barnu'r apêl?	• Dewis 1: ehangu cylch gwaith Tribiwnlys AAA Cymru (TAAAC) - byddai hyn yn dibynnu ar a roddwyd dyletswydd gyfreithiol ar bob partner statudol • Dewis 2: gwahaniaethu rhwng (i) apeliadau ynglŷn â darpariaeth gofal neu gefnogaeth (gydag apeliadau yn cael eu clywed gan y corff cwynion ar gyfer y gwasanaeth dan sylw) a (ii) partneriaid statudol yn methu cyflawni eu dyletswyddau statudol (gydag apeliadau yn cael eu clywed gan yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus)
4. Dolenni adborth	• Byddai TAAAC a chyrff apeliadau eraill yn cyhoeddi eu penderfyniadau • Dylai awdurdodau lleol a phartneriaid statudol ddechrau proses adolygu a chyhoeddi'r "gwersi a ddysgwyd" ganddynt a chynllun gweithredu • Gellid gofyn i TAAAC gynhyrchu adroddiad thematig, blynyddol yn nodi'r themâu a'r patrymau allweddol o'r anghydfodau yr oedd wedi eu clywed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a gwneud argymhellion y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid statudol eraill roi ystyriaeth iddynt

Awgrymiadau allweddol cydweithwyr i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach

Yn ychwanegol at yr awgrymiadau penodol a godwyd yn ystod y gyfres hon o weithdai, nodwyd pum thema drawsbynciol y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach yn ystod y rhaglen diwygio ADY.

- **Un dull yn cwmpasu'r cyfnod o enedigaeth hyd 25 oed** - gallai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd y byddai un dull newydd yn gymwys i blant ifanc iawn, ac yn benodol pa elfennau o'r broses asesu a chynllunio a fyddai'n briodol i'w anghenion.
- **Trothwyon ar gyfer asesu a chynllunio statudol** - gallai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid diffinio'r trothwyon hyn a sut y byddai hynny'n cael ei fapio ar y tair lefel o angen a nodwyd yn y gweithdy cyntaf. Hefyd, efallai y gellid rhoi ystyriaeth i'r ffyrdd y gallai diffiniad newydd, yn canolbwyntio ar anghenion a gyda disgwyliadau cliriach o'r gefnogaeth sydd ar gael ar bob lefel, gynorthwyo i liniaru'r risg bod CDU yn cael ei weld fel "pasbort i gyllid ychwanegol".
- **Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o strwythurau llywodraethu ar y cyd sy'n bodoli** - yn ystod y trafodaethau ar atebolrwydd, nododd ein cydweithwyr y gallai annog llywodraethu ar y cyd drwy'r strwythurau presennol, megis Byrddau Gwasanaeth Lleol neu adeiladu ar y consortia gwella ysgolion rhanbarthol, gynnig "budd cyflym" o ran gwella cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.
- **Gwybodaeth ar gyfer teuluoedd** - mewn nifer o feysydd o'r system AAA bresennol, nodwyd bod diffyg gwybodaeth glir, cyson a hygyrch i rieni yn rhwystr i weithrediad gwasanaethau effeithiol, o safon uchel.
- **Datblygu mesurau deilliannau effeithiol** - awgrymodd ein cydweithwyr y gallai fod rhinwedd mewn adolygu data a gesglir yn genedlaethol er mwyn ceisio nodi mesurau ar fframweithiau, megis y fframwaith cynnydd ieuenctid, y gellid eu defnyddio i olrhain cynnydd dysgwyr gydag ADY a dal gwasanaethau i gyfrif.